# YR AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R GYMRAEG

**DYDD** Gwener, 7 Gorffennaf 2023

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** G. Davies (Aelod o'r Cabinet)

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
T. Neumayer-James, Prif Swyddog Llywodraethu Ysgolion
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod - 9.00 - 9.15 yb

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

## 2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD 12 MAI 2023

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 12 Mai 2023 yn gofnod cywir.**

## 3. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL.

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Roedd gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i Bennaeth yr Ysgol ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/yr aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Nodwyd bod Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

Nodwyd hefyd y gallai'r holl Gynghorwyr Sir, ar ôl cael eu hethol, bennu ar ba gyrff llywodraethu ysgolion y byddent yn eistedd, a byddai eu penderfyniad yn cael blaenoriaeth dros Lywodraethwyr Awdurdod Lleol na chafodd eu hethol. O ganlyniad, gallai Cynghorwyr Sir enwebu i wasanaethu fel Llywodraethwyr Awdurdod Lleol ar ysgol lle nad oedd lle gwag ac os oedd gormod o lywodraethwyr, byddai'r Cyngor yn nodi pa Lywodraethwr Awdurdod Lleol yr oedd yn ofynnol iddo roi'r gorau i'r swydd.

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr Awdurdod Lleol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrff Llywodraethu:-**

| Ysgol Gynradd | Penodiadau |
|---|---|
| Bro Banw<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mrs K. Hughes |

| | |
|---|---|
| Gorslas<br>(2 le gwag - 1 ar hyn o bryd ac un o 2 Medi 2023 - 2 enwebiad) | Mr M. Jenkins<br>Mr C. Davies |
| Tre Ioan<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Miss K. Gardner |
| Llandeilo<br>(2 le gwag - 1 ar hyn o bryd ac un o 12 Gorffennaf 2023 - 2 enwebiad) | Y Cynghorydd Edward Thomas<br>Mr C. New |
| Llandybïe<br>(1 lle gwag o 15 Gorffennaf 2023 - 1 enwebiad) | Mrs E. Williams |
| Y Pwll<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mr. R. Staines |
| Santes Fair, Llanelli<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mrs C. Cooper |
| Tycroes<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mr S. Taylor |
| Y Dderwen<br>(2 le gwag o 25 Medi 2023 – 2 enwebiad) | Mr A. Charles<br>Y Cynghorydd Emlyn Schiavone |

| **Ysgol Uwchradd** | **Penodiadau** |
|---|---|
| Ysgol Emlyn<br>(3 lle gwag – 2 enwebiad) | Mrs M. Peckham<br>Mr M. Morden |
| Maes y Gwendraeth<br>(2 le gwag – 2 enwebiad) | Mrs D. Williams<br>Ms M. Maddock |

**AELOD O'R CABINET** **DYDDIAD**